Canllaw i Athrawon

Mae 58 miliwn o blant yn dal i fethu â mynd i'r ysgol.
Gall 2015 newid eu dyfodol.

Mae ymgyrch Danfona fy Ffrind i'r Ysgol yn bwysicach nag erioed eleni. Bydd arweinwyr byd yn ymgasglu yn y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi i wneud penderfyniadau a fydd yn llunio dyfodol plant y byd. O wneud y penderfyniadau iawn, dylai pob plentyn dderbyn addysg o ansawdd dda.

Gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth. Cymrwch ran yn ein hymgyrch fyd-eang yn 2015, i sicrhau bod arweinwyr byd yn gwasgu'r sbardun ac yn danfon pob plentyn i'r ysgol – heddiw!

Cofiwch gael golwg ar ein gwefan, i weld:

- Gweithgareddau, gan gynnwys "Cynnal Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig"
- Taflenni ffeithiau a storïau bywyd go iawn
- Cyflwyniadau PowerPoint i'w dangos mewn cyfarfodydd boreol
- Cyngor ar gysylltu gyda'ch Aelod Seneddol, y wasg, a'r cyfryngau cymdeithasol

http://www.sendmyfriend.org/resource_type/cymraeg/

I'n helpu i gyflawni ein hamcanion i roi addysg i bob plentyn yn 2015, rydym angen ichi ein helpu gyda'r tasgau hyn:

Tasg 1: Ymchwilio i'r pynciau

- Gwyliwch DVD yr ymgyrch a rhowch y posteri stori ar y wal
- Darllenwch straeon bywyd go iawn am blant sydd heb gyfle i fynd i'r ysgol
- Canfyddwch beth sydd angen i arweinwyr byd wneud yn 2015

Tasg 2: Camwch i esgidiau arweinydd byd

- Dychmygwch eich bod yn arweinwyr byd. Beth wnelech chi i gael plant i fynd i'r ysgol?
- Defnyddiwch ein templedi i greu eich arweinwyr byd 3D neu 2D eich hunain, ac ysgrifennwch negeseuon "Pe bawn i'n arweinydd byd..." arnynt
- Cynhaliwch eich Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig eich hunain drwy ddefnyddio ein cynllun gwers www.sendmyfriend.org.uk/resources.

Tasg 3: Enillwch gefnogaeth eich AS lleol!

- Fe wnawn e-bostio manylion eich AS lleol atoch wedi'r Etholiad Cyffredinol ym mis Mai
- Byddwch y cyntaf i'w gwahodd i ddigwyddiad yn eich ysgol
- Wedyn cyflwynwch eich arweinwyr byd i'ch AS ynghyd â llythyr eglurhaol erbyn diwedd mis Mehefin. Gall eich AS yrru eich negeseuon i'r Prif Weinidog, a fydd wedyn yn dylanwadu ar arweinwyr byd yn uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi.

Dyma ganllaw i chi gysylltu â'ch AS fan hyn: www.sendmyfriend.org.uk/speak-up

Tasg 4: Ymunwch â'n diwrnod gweithredu cenedlaethol, 26 Mehefin

- Cadwch y dyddiad, a dewch o hyd i fanylion ar ein gwefan yn fuan
- Gwahoddwch eich AS a'r wasg leol, a rhannwch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Bydd ysgolion ar draws y DU yn cymryd rhan – felly peidiwch â cholli'r cyfle!

I gael manylion ewch i: www.sendmyfriend.org.uk/take-action

Tasg 5: Lleisiwch eich barn, rhannwch, a gwnewch iddo gyfrif!

- Lawrlwythwch logos i greu cyflwyniadau, posteri neu dudalennau gwefan
- Defnyddiwch ein pecyn y wasg i roi cyhoeddusrwydd i'ch gwaith, a rhannwch luniau ar y cyfryngau cymdeithasol.
- I gael ysbrydoliaeth ewch i www.sendmyfriend.org/speak-up.

Derbyn eich tystysgrif!

Cofiwch ddweud wrthym beth wnaethoch chi. Dywedwch wrthym faint o bobl wnaeth gymryd rhan, gyrrwch luniau a newyddion i ni, a byddwn yn anfon tystysgrif ichi! Rhowch eich manylion fan hyn: www.sendmyfriend.org/totaliser.

POB LWC!

Cyfarwyddiadau i adeiladu eich arweinwyr byd!

Arweinwyr byd 3D:

Cychwynnwch drwy lungopïo'r templedi ar gerdyn neu bapur.

Bydd ar bob unigolyn angen:

- **Templed y corff**
- **Templed y pen**
- **Glud**
- **Pennau lliwio neu baent**
- **Gliter neu bethau i'w defnyddio i'w haddurno**

Beth i'w wneud:

1. **Ysgrifennwch neges eich arweinydd byd ar dempled y corff**
2. **Byddwch yn greadigol: addurnwch eich arweinydd byd i edrych fel chi, gwisgwch nhw mewn siwt smart, neu rowch sbarc iddyn nhw drwy ddefnyddio gliter a lliwiau**
3. **Torrwch ar hyd y llinellau syth â siswrn**
4. **Plygwch tuag i mewn ar hyd y llinellau dotiog**
5. **Gludwch ar hyd y 'fflapiau glud' ac adeiladwch eich pen a'ch corff**
6. **Gan ddefnyddio glud, rhowch freichiau ar y corff, a gwallt ar y pen**
7. **Rhowch y pen ar y corff i greu eich arweinydd byd eich hun**
8. **Dewch â'ch arweinwyr byd at ei gilydd mewn Uwchgynhadledd fach y Cenhedloedd Unedig**

Arweinwyr byd 2D:

1. **Ysgrifennwch neges eich arweinydd byd ar eich templed**
2. **Addurnwch nhw, gan ddefnyddio patrymau, lliwiau lloerig neu gliter**
3. **Torrwch ar hyd y llinellau dotiog â siswrn**
4. **Os ydych eisiau iddynt sefyll, torrwch o amgylch y stand, plygwch ar hyd y llinellau dotiog, a gludwch y stand ar y cefn**

Arweinydd Byd 3D

A) Templed y pen

Pen uchaf dde: Ychwanegwch arweinydd byd bach gyda swigen siarad yn dweud... “Pe bawn i’n arweinydd byd...”



Arweinydd Byd 3D

B) Templed y corff



Arweinydd Byd 2D

Ychwanegwch arweinwyr byd bychain gyda swigod siarad yn dweud:



DANFONA FY FFRIND I'R YSGOL 2015



Proplau Arweinydd Byd

Rhowch bropiau difyr i'ch arweinwyr byd.

(next to stand) Defnyddiwch hwn fel stand i'ch arweinwyr byd 2D.

Ysgrifennwch eich neges "Pe bawn i'n arweinydd byd..." fan hyn.